Atodiad 'B'

CYMDEITHAS DEFAID LLEYN CYF.

Adroddiad o Gyfarfod Blynyddol Cymdeithas Defaid Lleyn Cyf. a gynhaliwyd yng Ngwesty Hilton Puckrup Hall, Tewkesebury, Nos Sadwrn, 30ain Hydref, 2021, o 6.00 y.h hyd 6.25 y.h.

Presennol: Yn unol â'r Gofrestr Presenoldeb
Ymddiheuriadau: Fel eu cofrestrwyd.

1.— CROESAWU

Croesawodd Cadeirydd y Cyngor, Mr. John Dugdale, yr aelodau i'r cyfarfod wyneb yn wyneb – oherwydd COFID19 bu i'r Cyfarfod Blynyddol ym 2020 gael ei gynnal drwy'r decholeg 'zoom.'

2. LLYWYDD AM Y FLWYDDYN 2021/2022

Etholwyd Mr. A. Wynne Davies yn Llywydd am y flwyddyn 2021/2022.
Cynigiwyd gan Meurig Williams a gyfeiriodd at y gwaith arbennig o wneir gan Wynne Davies i hyrwyddo'r brid a sicrhau dyfodol i'r brid a'r Gymdeithas. Eiliwyd gan Richard Twose.
Cymerodd Mr. A. Wynne Davies y gadair am weddill y cyfarfod a diolchodd am y geiriau caredig a theimlai ei bod yn anrhydedd derbyn y swydd am flwyddyn arall.
Er ei bod wedi bod yn ddeunaw mis anodd bu i'r Gymdeithas ymdopi'n dda drwy gynnal cyfarfodydd ar y dechnoleg newydd 'zoom' ond teimlai ei fod yn braf cael dod yn ôl i rhyw fath o normalrwydd a chael cyfarfod aelodau hen a newydd wyneb yn wyneb unwaith yn rhagor. Diolchodd i bawb.

3. IS-LYWYDD AM Y FLWYDDYN 2021/2022

Etholwyd Mr. John Geldard yn Is-lywydd y Gymdeithas am y flwyddyn 2021/2022.
Cynigiwyd gan David Knowles ac eiliwyd y cynnig gan Martyn Harries.

Yr un modd diolchodd yr Is-lywydd etholedig am y fraint o gael gwasanaethu'r Gymdeithas am flwyddyn arall.

4. AELODAETH Y CYNGOR

Adroddwyd ar y rhai a etholwyd yn ddi-wrthynebiad i weithredu ar y Cyngor am gyfnod o dair blynedd:

Lleyn ag Eifionydd (Rhanbarth 1)	Mr. Arfon Wyn Hughes
De Cymru (Rhanbarth 3)	Mr. Richard Twose
Canolbarth Lloegr (Rhanbarth 4)	Mrs. Phyllida Hale
De Lloegr (Rhanbarth 5)	Mr. Derek Bond
Gogledd Orllewin a Gogledd Lloegr (Rhanbarth 6)	Mr. James Barrow
	Mr. David Knowles

Penderfynwyd derbyn yr enwebiadau fel eu cofnodwyd uchod a llongyfarchwyd hwynt ar gael eu hethol am gyfnod o dair blynedd.

Cynigiwyd gan John Geldard ac eiliwyd gan Bethan Vaughan.

Nodyn – bydd 19 o aelodau yn gweithredu ar y Cyngor ynghyd â'r Llywydd a'r Is-lywydd yn rhinwedd eu swydd.

5. AELODAETH Y PWYLLGOR DISGYBLU

Penderfynwyd ail ethol yr un aelodau i wasanaethu ar y Pwyllgor Disgyblu sef:
Dr. J.M. Adams, Mr. Robin Darker, Mr. Dewi Ellis, Mr. Wallace McCurdie a Mr. Alan T. West.
Cynigwyd gan Derek Bond ac eiliwyd gan Phyllida Hale.

6. CADARNHAU COFNODION

Cyflwynwyd, cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd 22ain Hydref, 2020. Cynigwyd gan James Barrow ac eiliwyd gan Meurig Williams.

7. ADRODDIAD Y CADEIRYDD

Cyflwynwyd a derbyniwyd adroddiad y Cadeirydd
Cynigwyd gan Arfon Wyn Hughes ac eiliwyd gan Bethan Vaughan.

8. ADRODDIAD Y CYNGOR

Cyflwynwyd adroddiad ar weithrediadau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn.
Cynigwyd gan John Dugdale ac eilwyd gan Phyllida Hale.

9. CYFLWYNO'R FANTOLEN ARIANNOL AM Y CYFNOD 1af EBRILL, 2020 i 31ain MAWRTH, 2021

a) Cyflwynwyd cyfrifon y Gymdeithas am y cyfnod 1af Ebrill, 2020 i 31ain Mawrth, 2021, fel y'u paratowyd gan Owain Bebb a'i Gwmni, Caernarfon – Archwilwyr y Gymdeithas.
Ymhelaethodd y Trysorydd, David Knowles, ar y cyfrifon:
Bu'r flwyddyn yn llwyddiannus a gwelwyd gweddill arian o £77,000 i'w gario drosodd i'r flwyddyn ariannol nesaf.
Ochr yr incwm:
Tâl aelodaeth o £24,700 wedi ei dderbyn a hynny drwy Ddebyd Uniongyrchol gan y mwyafrif.
Wyn fanw – gwelwyd £48,450 o arian yn cael ei dderbyn am gofrestru wyn fanw a diolchodd i'r aelodau am gofrestru eu hanifaeliaid.
Arwerthiannau – blwyddyn lwyddiannus arall gyda £13,427 o gomisiwn yn cael ei dderbyn, i fyny £2,000 ar y flwyddyn flaenorol.
Cyfanswm yr incwm oedd £127,474.
Ochr y gwariant:
Taliadau trafaelio, aros a.y. – nid oedd unrhyw daliadau oherwydd y 'clo' fu oherwydd COFID19.
Costau positio – gostyngiad yn y taliadau hyn, ond gofynnodd am i'r aelodau roddi eu cyfeiriad e-bost i'r swyddfa gan ei bod ym mwriad y Gymdeithas i fynd yn ddibapur yn y dyfodol agos.
Archwilio meheryn – ni fu'n bosibl gwneud hyn oherwydd y cyfyngiadau yn deillio o COFID19.

Cyfanswm y gwariant - £105,991.
Llogau o fuddsoddiadau – Rathbones ac NFU - £45,762.
Wrth derfynu diolchodd y Trysorydd am gymorth yr Ysgrifenyddes yn paratoi'r cyfrifon.

Penderfynwyd derbyn y fantolen fel y'i cyflwynwyd a diolchwyd i David Knowles am ei adroddiad a'i waith yn ystod y flwyddyn.
Cynigiwyd gan James Barrow ac eiliwyd gan Mike Miller.

b) Rhyddhad rhag gorfod cael archwiliad

Penderfynwyd fod y Gymdeithas yn hawlio rhyddhad rhag gorfod cael archwiliad.
Cynigiwyd gan Bethan Vaughan ac eiliwyd gan Colin Crawford.

10. CYFRIFON

Penderfynwyd penodi Mri. Owain Bebb a'i Gwmni yn Archwilwyr Swyddogol y Gymdeithas am y flwyddyn 2021/22.
Cynigwyd gan Meurig Williams ac eiliwyd gan Richard Twose.

11. TÂL AELODAETH

Yn unol â Rheolau'r Gymdeithas, adolygwyd y tâl a delir yn flynyddol am ymaelodi â'r Gymdeithas.

Penderfynwyd glynu at yr un tâl aelodaeth sef i £30/€42 (heb T.A.W.) y flwyddyn yn ddyledus ar 1af Ionawr, 2022.
Cynigwyd gan David Knowles ac eiliwyd gan Sian Jones.

12. ENILLWYR Y CPWANNAU AM Y FLWYDDYN 2020

Cwpan Barnard am y pris uchaf am faharen/oen maharen yn Arwerthiant Rhuthun – E a D. Jones (599) – 5000gini
Derbyniodd Meurig Williams y Gwpan gan Ruth Dugdale ar ran E. a D. Jones.
Cwpan Cymdeithas Defaid Lleyn am y pris uchaf am faharen/oen mharen yn Arwerthiant Ross-on-Wye – J.A. ag R. Geldard a'r Meibion (621) 2600gini
Cyflwynodd Pat Baseley y gwpan i John Geldard.
Cwpan Morgan Evans am y pris uchaf o beniad o wyth neu fwy o famogiaid yn Arwerthiant Rhuthun – D.W. Ellis (547) – 10 dafad flwydd am £250 yr un
Cyflwynodd Roger Jones y Gwpan i Sian Hughes ar ran Dewi Wyn Ellis.
Cwpan Roseland am y pris uchaf am faharen/oen maharen yn Arwerthiant Caerwysg – E. a D. Jones (599) 2700gini
Cyflwynodd Gill Adams y gwpan i Graham Sevenoaks ar ran E. a D. Jones.
Cwpan Lluest Wen am y pris uchaf am faharen/oen maharen yn Arwerthiant y Trallwng T. a B Fort (diadell 1656) a J.A.ag R. Geldard a'r Meibion (621) 1600gini yr un
Cyflwynodd Jennifer Twose y gwpan i John Geldard.
Llongyfarchwyd yr aelodau am eu llwyddiant.

Nodyn – oherwydd na chynhaliwyd Sioeau eleni, ni chyflwynwyd Cwpan Coffa 'H.E. Roberts' na Cwpan Bwyntiau Baseley.

Nodyn pellach – oherwydd y cyfyngiadau gyda'r Coronafeirws ni chynhaliwyd Sioe Frenhinol Cymru na Sioe Frenhinol Ulster yn ystod 2021, ac nid oedd dosbarth ar gyfer y brid Lleyn yn Sioe Frenhinol yr Ucheldir oherwydd diffyg yn y nifer.

Nodyn pellach – oherwydd na chynhaliwyd Sioeau eleni, ni chyflwynwyd Cwpan Coffa 'H.E. Roberts' na Chwpan Bwyntiau Baseley.

13. **CYSTADLEUAETH FFOTOGRAFFIAETH**

Adroddwyd mai Dylan ag Anwen Jones oedd beiriand am eleni a'r pencampwr oedd Andrew Kennedy (1618) a fyddai'n derbyn gwobr o nwyddau J.G. Animal Health Products gwerth £120.

Diolchwyd JG Animal Health Products am noddi'r gystadleuaeth, Dylan ag Anwen Jones (diadell 599) am feirniadu ac i'r rhai anfonodd luniau i fewn.

14. **UNRHYW FATER ARALL**

Gofynnodd Sian Jones am i'r Gymdeithas ystyried cynnal arwerthiant defaid benywaidd yn gynharach yn y flwyddyn er cael eu defnyddio fel 'receipent ewes' .
Bydd y pwyllgor perthnasol yn ystyried hyn.

15. **DIOLCHIADAU**

Cyflwynwyd y diolchiadau gan Mike Miller a dywedodd ei bod yn hyfrydwch cael gweld aelodau a ffrindiau unwaith yn rhagor wyneb yn wyneb.
Diolchodd i:
Swyddog Marchnata a Hyrwyddo'r brid – Heather) am eu hymroddiad a'r gwaith da
Yr Ysgrifenyddes – Gwenda) a wneir ganddynt
Y Cadeirydd, Is-Gadeiryddes a'r Trysorydd am hyrwyddo a thywys y gweithgareddau yn ystod cyfnod anodd.
Y Llywydd am ei gefnogaeth a'i waith ardderchog yn llywio'r Gymdeithas.
Yr Archwiliwr Meheryn a Sian Hughes am eu gwaith da.
Ategwyd y diolchiadau gan Meurig Williams a dywedodd ei bod yn bleser cael dweud fod y Gymdeithas yn ffynnu ac yn llwyddiant ysgubol. Diolchodd am y weledigaeth.